OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3193

# Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007

**Argyfwng cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear**

**2.**—(1) Rhaid i awdurdod tân ac achub ddarparu yn ei ardal at ddibenion—

(a) gwaredu halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol oddi ar bobl os bydd argyfwng([1]) sy'n golygu bod halogion o'r fath yn cael, neu y gallant gael, eu gollwng; a

(b) dal, am gyfnod rhesymol, unrhyw ddwr a ddefnyddir at ddiben a grybwyllwyd yn is-baragraff (a).

(2) Wrth gymryd camau at ddiben a grybwyllwyd ym mharagraff (1), rhaid i awdurdod tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i atal niwed difrifol i'r amgylchedd neu i gyfyngu ar niwed o'r fath.

(**1**) Mae "emergency" wedi'i ddiffinio yn adran 58 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.